**<u>Cofnodion trydydd cyfarfod a deugain y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**

Lleoliad: Ystafelloedd Cynadledda C a D, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Caerdydd, CF99 1NA.
Dydd Mercher 19 Hydref 2016
6.00pm

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**
Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy)
Mike Hedges AC (Llafur Cymru, Dwyrain Abertawe)
David Rowlands AC (UKIP, Dwyrain De Cymru):

**Yn bresennol:**
Andrew Stumpf – Glandŵr Cymru – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru
Laura Lewis – Glandŵr Cymru – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru
David Morgan – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru
Anthony Pugh
Gareth Jones - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Richard Dommett – MBACT
Heidi Carey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Roger Holmes
Tony Harrington – Dŵr Cymru
John Andrew Davies, Partneriaeth Dyfrffyrdd Mewndirol Bae Abertawe
Wyn Mitchell – Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni
Richard Dearing – Cynghorydd Gweithgareddau Hamdden Dŵr a Mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru

* * * * *

Dechreuodd y cyfarfod am 18.20

Dechreuodd Nick Ramsay drwy groesawu'r aelodau newydd i'r grŵp, a rhoi hanes y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd.

Nododd Nick Ramsay y newid yn yr agenda, wrth i drefn y cyflwyniadau newid.

**Eitem 1: Ail-ethol Cadeirydd**

Ail-gadarnhawyd Nick Ramsay AC fel Cadeirydd y grŵp.

Cadarnhawyd Glandŵr Cymru – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru fel ysgrifenyddiaeth y grŵp.

**Eitem 2: Cyflwyniad:** Waterworks: Adfer Gwirfoddol a Hyfforddiant ar Gamlas Sir Fynwy, Brycheiniog a’r Fenni

Rhoddodd Heidi Carey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Richard Dommett, Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Brycheiniog a’r Fenni gyflwyniad yn amlinellu gwaith y prosiect Waterworks sy’n digwydd ar Gamlas Sir Fynwy, Brycheiniog a’r Fenni.

Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r prosiect, gan egluro mai prosiect a ariennir gan gronfa treftadaeth y loteri yw Waterworks, i adfer darn 1.5 km (1 filltir) o Gamlas Sir Fynwy, Brycheiniog a’r Fenni yn Llantarnam, De Cwmbrân. Bydd y prosiect yn rhedeg am dair blynedd i ddechrau, o 2012-2015. O fewn yr adran 1.5km o waith adfer, mae wyth siambr loc i’w hadfer yn ogystal â nifer o bontydd rhestredig a llociau.

Ychwanegodd Richard Dommett fod y prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni ac mae'n cynnwys nifer o sefydliadau hyfforddi gan gynnwys Coleg Gwent, Hyfforddiant Torfaen, Hyfforddiant ITEC a Rathborne.

Dywedodd Heidi Carey y bydd prosiect adfer y gamlas yn cael ei arwain gan wirfoddolwyr yn y gymuned a bydd yn darparu hyfforddiant ar adfer camlesi a sgiliau treftadaeth i helpu i gynnal y gamlas yn y dyfodol.

Mae Camlas Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni yn llifo o Aberhonddu drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thorfaen i Gasnewydd a Chaerffili. Mae'r gamlas, sydd bellach yn ddau gant o flynyddoedd oed, yn rhan bwysig o'n tirwedd a'n treftadaeth ddiwydiannol.

Eglurodd y cyflwyniad fod adfer y gamlas segur drwy Tŷ Coch yng Nghwmbrân yn rhan o strategaeth tymor hir i ailagor y gamlas i fordwyo. Drwy wneud hynny, gall y gamlas ddarparu adnodd hamdden a choridor gwyrdd deniadol wrth wraidd y gymuned a gall chwarae rhan bwysig o ran adfywio'r ardal.

Cyflwyniad ar gael, cysylltwch â laura.lewis@canalrivertrust.org.uk.

**Eitem 2: Cyflwyniad: Yr hyn y gall dyfrffyrdd ei wneud i Gymru?**

Rhoddodd Andrew Stumpf, Pennaeth Cymru, Glandŵr Cymru, drosolwg o rôl bresennol Dyfrffyrdd yng Nghymru, a nododd ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y rhwydwaith yng ngoleuni'r buddsoddiad o £2.538 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Andrew fanylion y prosiect, sy'n dechrau gyda gwaith galluogi i ddiogelu rhan uchaf Camlas Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni.

Ychwanegodd Andrew fod cryn synergedd rhwng dyheadau polisi cyhoeddus yng Nghymru a'r potensial i'r Ymddiriedolaeth wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Glandŵr Cymru a Llywodraeth Cymru yn helpu i gryfhau rôl camlesi ym mywyd Cymru.

Yna eglurodd Andrew Stumpf strwythur y broses adborth a'r fformat ar gyfer gweddill sesiwn y grŵp.

Cyflwyniad ar gael, cysylltwch â laura.lewis@canalrivertrust.org.uk.

**Eitem 3: Adborth a Thrafodaeth**

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol roi adborth ar y cyflwyniadau a rhannu eu syniadau o ran yr hyn y gall y rhwydwaith camlesi ei gynnig i Gymru.

Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys:

- Twf a swyddi – faint o swyddi a allai'r buddsoddiad yng Nghamlas Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni eu creu
- Twristiaeth
- Cyfleoedd i wirfoddoli
- Potiau arian posibl
- Addysg
- Rôl y gamlas yn y ddinas-ranbarth

Nododd Tony Harrington o Dŵr Cymru fod Dŵr Cymru yn noddi prosiectau cyfalaf, ac anogodd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a'r Ymddiriedolaethau Camlesi i wneud cais. Gofynnodd hefyd sut y mae Glandŵr Cymru yn codi arian ar hyn o bryd .

Atebodd Andrew Stumpf ein bod ar hyn o bryd yn defnyddio codwyr arian, rhoddwyr mawr, cysylltiadau presennol a cheisiadau i ffrydiau ariannu agored.
Gofynnodd David Rowlands AC a fyddai'r £2.538 miliwn yn mynd tuag at waith adfer.

Atebodd Andrew Stumpf mai'r prosiect cyntaf yw gwaith galluogi ar frig Camlas Sir Fynwy, Brycheiniog a'r Fenni i ganiatáu gwaith adfer yn y gwaelod yn y dyfodol.

**Eitem 4: Unrhyw fater arall**

Dim sylwadau: